

PRIFFYRDD, CYMRU

2018 RHIF 53

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 A
DEDDF PRIFFYRDD 1980**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD
GYSWLLT CHIMNEYS, ABERGWAUN, SIR
BENFRO) 2018**

<i>Gwnaed</i>	<i>18 Mehefin 2018</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>20 Mehefin 2018</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac adran 125 o Ddeddf Priffyrrd 1980(2).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrrd (Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun, Sir Benfro) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Sir Penfro;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer; ac

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrrd (Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun, Sir Benfro) 2018” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

HIGHWAYS, WALES

2018 NO. 53

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990
AND THE HIGHWAYS ACT 1980**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS
(CHIMNEYS LINK, FISHGUARD,
PEMBROKE SHIRE) ORDER 2018**

<i>Made</i>	<i>18 June 2018</i>
<i>Coming into Force</i>	<i>20 June 2018</i>

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 248 of the Town and Country Planning Act 1990(1) and section 125 of the Highways Act 1980 (2)

Title, Interpretation and Commencement

1. (1) The title of this Order is The Stopping Up of Highways (Chimneys Link, Fishguard, Pembrokeshire) Order 2018.

(2) In this Order:-

“the Council” (“*y Cyngor*”) means the Council of the County of Pembrokeshire;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been given; and

“the deposited plan” (“*y plan a adneuwyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Chimneys Link, Fishguard, Pembrokeshire) Order 2018” which accompanies this Order; and

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

(1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd ethylgol 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

(2) 1980 p. 66.

(1) 1990 c. 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(2) 1980 c.66

Cau Priffyrd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra trwm ar y plan a adneuwyd a chau'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir â du solet ar y plan a adneuwyd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er budd diogelwch defnyddwyr y briffordd y bwriedir ei hadeiladu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2017 o dan y cyfeirnod 17/0422/PA, ac a ddisgrifir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn, ac er mwyn hwyluso symudiad traffig ar y briffordd honno.

Priffyrd Newydd/Wedi eu Gwella

3. Rhaid creu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a'r priffyrd wedi eu gwella a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, ac mae'r priffyrd hyn, at ddibenion Deddf Priffyrd 1980, i fod yn briffyrd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrd ar eu cyfer.

4. Rhaid creu, mewn cysylltiad â chau'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, y mynedfeydd preifat newydd a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ysgafn ar y plan a adneuwyd.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd

5. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 na'r darnau o'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 -

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fod y bwriedir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 a'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrd newydd a'r priffyrd wedi eu gwella a ddisgrifir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a'r darnau o'r mynedfeydd preifat newydd a ddisgrifir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 6 wedi ei

Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, 5, 6 and 7, the Welsh Ministers authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 shown by bold zebra hatching on the deposited plan and the stopping up of private means of access described in Schedule 2 shown in solid black on the deposited plan.

The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary in the interests of the safety of users of, and to facilitate the movement of traffic on, the highway(s) proposed to be constructed in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 27 November 2017 under reference number 17/0422/PA and described in Schedule 6 to this Order.

New / Improved Highway(s)

3. There shall be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new highway(s) described in Schedule 3 to this Order shown by stipple marking on the deposited plan and the improved highway(s) described in Schedule 4 to this Order shown by cross hatching on the deposited plan, which are to be highway(s) which, for the purposes of the Highways Act 1980, are highway(s) maintainable at the public expense and the Council is to be the highway authority for them.

4. There shall be created, in connection with the stopping up of the private means of access described in Schedule 2 to this Order the new private means of access described in Schedule 4 to this Order shown by light zebra hatching on the deposited plan.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up

5. The length of highway described in Schedule 1 and the lengths of private means of access described in Schedule 2 must not be stopped up until-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing the means whereby the lengths of highway described in Schedule 1 and the private means of access described in Schedule 2 are to be stopped up;

(b) the developer has provided the new and improved highways described in article 3 of this Order and the lengths of new private means of access described in article 4 of this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 a'r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2 er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

Ymgymwyr Statudol a Darparwyr

6. Pan fo gan ymgymwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd neu'r fynedfa breifat, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd neu'r fynedfa breifat yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 6 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd cyfnod o'r fath, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

(c) the development in Schedule 6 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the highway described in Schedule 1 and the private means of access described in Schedule 2 to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

Statutory Undertakers and Providers

6. Where immediately before the area of highway or private means of access are stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway or private means of access any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

7. If the development in Schedule 6 has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of such period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Mehefin 2018

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated 18 June 2018

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn trionglog ei siâp o briffordd sy'n rhan o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh, Abergwaun i'r de-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Rhif 17 y Wesh, o bwynt 10 metr i'r dwyrrain o gornel fwyaf dwyreiniol Rhif 17 y Wesh hyd at bwynt 8.5 o fetrau i'r de-orllewin o gornel fwyaf gorllewinol Rhif 15 y Wesh, mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 8 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 4 o fetrau, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 16 o fetrau sgwâr, ac y rhoddir y cyfeirnod S1 iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r mynedfeydd preifat sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan betryalog ei siâp sy'n rhan o'r fynedfa breifat bresennol i gerbydau i safle Midland Garages ychydig i'r de o'r eiddo o'r enw Rhif 17 y Wesh, ac sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh, Abergwaun i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 1 fetr, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 3 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod S2 iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o'r fynedfa breifat bresennol i gerbydau sy'n rhoi mynediad i'r tu cefn i'r Wesh a Heol Fawr, i'r gorllewin o'r eiddo o'r enw Rhif 15 y Wesh, ac sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh, Abergwaun, i gyfeiriad y de yn gyffredinol y mae ei hyd yn ei man hiraf yn 24 o fetrau, a'i lled yn ei fan lletaf yn 8 o fetrau, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 104 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod S3 iddi ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darnau o briffordd newydd sydd i'w darparu

Priffordd newydd at bob diben i gysylltu cefnffordd yr A487 â chefnffordd yr A40 a fydd yn ymestyn o bwynt ar Heol Fawr, 138 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Lota Park Road, sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin yn gyffredinol am 102 o fetrau i'r

SCHEDULES

(All measurements are approximate)

SCHEDULE 1

Description of the length of highway to be stopped up under this Order

A triangular shaped length of highway being part of the A487 trunk road known as West Street, Fishguard located south east of the property known as No.17 West Street, from a point 10 metres east of the easternmost corner of No. 17 West Street to a point 8.5 metres south west of the westernmost corner of No. 15 West Street, with a maximum length of 8 metres, and a maximum width of 4 metres and a total area of 16 square metres, and given the reference S1 on the deposited plan.

SCHEDULE 2

Description of the private means of access to be stopped up under this Order

A rectangular shaped area being part of the existing vehicular private means of access into the Midland Garages site located just south of the property known as No.17 West Street, and extending from its junction with the A487 trunk road known as West Street, Fishguard in a south westerly direction for 1 metre, a total area of 3 square metres, and given the reference S2 on the deposited plan.

An irregular shaped area of existing private means of access providing access to the rear of West Street and High Street located west of the property known as No.15 West Street, extending from its junction with the A487 trunk road known as West Street, Fishguard, in a generally southerly direction with a maximum length of 24 metres, and having a maximum width of 8 metres and a total area of 104 square metres, and given the reference S3 on the deposited plan.

SCHEDULE 3

Description of the lengths of new highway to be provided

A new all purpose highway to link the A487 and A40 trunk roads that would extend from a point on High Street, 138 metres north east of its junction with Lota Park Road, extending in a generally north westerly direction for 102 metres to the west of the existing

gorllewin o'r siôp Co-op bresennol, ac yna i gyfeiriad y dwyrain am 101 o fetrau ac yna i gyfeiriad y gogledd am 33 o fetrau i'r gogledd o safle Ysgol Gynradd Sirol Abergwaun, i ymuno â chefnffordd yr A487 wrth bwynt 64 o fetrau i'r de-ddwyrain o groesffordd Ropewalk a'r Wesh, am gyfanswm pellter o 223 o fetrau, rhwng pwyntiau A a B ac y rhoddir y cyfeirnod N1 iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan newydd o briffordd sy'n arhosfan fysiau/coetsys a fydd yn ymestyn o bwynt ar ffîn ogledol y briffordd ddosbarthiadol newydd N1, 26 o fetrau i'r de-ddwyrain o gornel fwyaf deheuol Unedau 1-7 Midland Garages, gan ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am 79 o fetrau, y bydd cyfanswm ei harwynebedd yn 906 o fetrau sgwâr, i ymuno â ffîn ogledol y briffordd ddosbarthiadol newydd N1, rhwng pwyntiau C a D ac y rhoddir y cyfeirnod N2 iddi ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o briffordd sy'n llwybr troed, o'i gyffordd â'r briffordd newydd N1 am bellter o 88 o fetrau i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol, gan igamogamu i ymuno â llwybr presennol wrth bwynt 27 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gornel fwyaf deheuol Unedau 1-7 Midland Garages, rhwng pwyntiau E ac F ac y rhoddir y cyfeirnod N3 iddo ar y plan a adneuwyd.

Priffordd newydd sy'n llwybr troed, o'i chyffordd â'r briffordd newydd N2 am bellter o 8 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at bwynt 12 o fetrau i'r de-ddwyrain o gornel fwyaf deheuol Unedau 1-7 Midland Garages, i ymuno â'r fynedfa breifat newydd sy'n dwyn y cyfeirnod P1, rhwng pwyntiau G a H ac y rhoddir y cyfeirnod N4 iddo ar y plan a adneuwyd.

Priffordd newydd sy'n llwybr troed, o'i chyffordd â'r briffordd newydd N1 am bellter o 26 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin, ac yna am bellter o 26 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-orllewin i ymuno â llwybr presennol wrth bwynt 48 o fetrau i'r de-orllewin o gornel fwyaf gorllewinol y Co-op, am gyfanswm pellter o 53 o fetrau rhwng pwyntiau I a J ac y rhoddir y cyfeirnod N5 iddi ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 4

Disgrifiad o'r darnau o fynedfevdd preifat newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Darn newydd o fynedfa breifat i gerbydau i safle Midland Garages, o ffîn ogledol y ffordd gyswilt newydd arfaethedig N1 a ffîn ddeheuol y llwybr troed newydd N3 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o gornel fwyaf dwyreiniol Unedau 1-7

Co-op store, and then in an easterly direction for 101 metres and then in a northerly direction for 33 metres to the north of the Fishguard County Primary School site, to join the A487 trunk road at a point 64 metres south east of the intersection of Ropewalk and West Street , for a total distance of 223 metres, between points A and B and given the reference N1 on the deposited plan.

A new area of highway being a bus/coach lay-by that would extend from a point on the northern boundary of the new classified highway N1, 26 metres south east of the southernmost corner of Units 1-7 Midland Garages, extending in a generally north easterly direction for 79 metres and having a total area of 906 square metres to join the northern boundary of the new classified highway N1, between points C and D and given the reference N2 on the deposited plan.

A new length of highway being a footpath from its junction with new highway N1 for a distance of 88 metres in a generally northerly direction, zig zagging to join an existing path at a point 27 metres north west of the southernmost corner of Units 1-7 Midland Garages, between points E and F and given the reference N3 on the deposited plan.

A new highway being a footpath from its junction with new highway N2 for a distance of 8 metres in a north westerly direction to a point 12 metres south east of the southernmost corner of Units 1-7 Midland Garages to join new private means of access referenced P1, between points G and H and given the reference N4 on the deposited plan.

A new highway being a footpath from its junction with new highway N1 for a distance of 26 metres in a south westerly direction, and then for a distance of 26 metres in a north westerly direction to join an existing path at a point 48 metres south west of the westernmost corner of the Co-op, for a total length of 53 metres between points I and J and given the reference N5 on the deposited plan.

SCHEDULE 4

Description of the lengths of new private means of access to be provided under this Order

A new length of vehicular private means of access into the Midland Garages site, from the northern boundary of the proposed new link road N1 and southern boundary of new footpath N3 to a point 21 metres north east of the eastern most corner of Units 1-7 Midland Garages, a length of 50 metres and a maximum width of 13 metres, and given the reference

Midland Garages, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 50 metr a'i led yn ei fan lletaf yn 13 o fetrau, ac y rhoddir y cyfeirnod P1 iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o fynedfa breifat i gerbydau i'r tu cefn i'r eiddo ar y Wesh a Heol Fawr, oddi ar ffin deddwyreiniol y ffordd gyswllt newydd arfaethedig, o bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gornel fwyaf deheuol yr eiddo o'r enw Chimneys, hyd at bwynt 10 metr i'r de-orllewin o gornel fwyaf deheuol yr eiddo o'r enw Chimneys, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 25 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 15 o fetrau, ac y rhoddir y cyfeirnod P2 iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 5

Disgrifiad o'r rhannau o briffyrrd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Lota Park Road am 37 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, rhwng yr eiddo o'r enw 42 Heol Fawr a'r Ship & Anchor Inn, Heol Fawr, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 398 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod H1 iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Ropewalk am bellter o 53 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain, rhwng yr eiddo o'r enw 25 y Wesh a 13 y Wesh, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 685 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod H2 iddi ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 6

Y Datblygiad

Ffordd Gyswllt Chimneys (Cam 2), gan gynnwys adeiladu ffordd gyswllt newydd, gwelliannau i dir cyhoeddus, ynghyd â gwaith cysylltiedig arall gan gynnwys arhosfan fysiau/coetsys, addasiadau i'r siop Co-op bresennol, gwaith seilwaith dŵr wyneb a dymchwel hen brif adeilad Ysgol Gynradd Sirol Abergwaun, ffreutur yr ysgol, tri o dai allan, Transition Bro Gwaun a'r rhan o'r hen lyfrgell sydd â tho ar oleddf sydd ynglwm wrth dafarn y Ship & Anchor ar hen safle Ysgol Gynradd Sirol Abergwaun, ynghyd â'r tir i'r gogledd o Heol Fawr, Abergwaun.

P1 on the deposited plan.

A new length of vehicular private means of access to the rear of properties on West Street and High Street, off the south eastern boundary of the proposed new link road, from a point 28 metres north west of the southern most corner of the property known as Chimneys to a point 10 metres south west of the southernmost corner of the Property known as Chimneys, a length of 25 metres and a maximum width of 15 metres, and given the reference P2 on the deposited plan.

SCHEDULE 5

Description of the areas of highway to be improved under this Order

An irregular shaped area of highway being part of the A40 trunk road known as High Street extending from a point 124 metres north east of its junction with Lota Park Road for 37 metres in a north easterly direction, between the properties known as 42 High Street and the Ship & Anchor Inn, High Street, a total area of 398 square metres and given the reference H1 on the deposited plan.

An irregular shaped area of highway being part of the A487 trunk road and known as West Street extending from a point 32 metres south east of its junction with Ropewalk for 53 metres in a south easterly direction, between the properties known as 25 West Street and 13 West Street, a total area of 685 square metres and given the reference H2 on the deposited plan.

SCHEDULE 6

The Development

The Chimneys Link (Phase 2), to include the construction of a new link road, public realm improvements, together with other associated works including a bus/coach focal point, alterations to the existing Co-op store, surface water infrastructure and the demolition of the former Fishguard County Primary School main building, the school canteen, three outbuildings, Transition Bro Gwaun and the pitched roof section of the former library attached to the Ship and Anchor Public House on the site of the former Fishguard County Primary School, together with the land north of High Street, Fishguard.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD GYSWLLT CHIMNEYS, ABERGWAUN, SIR BENFRO) 2018

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“y Ddeddf”) ac adran 125 o’r Ddeddf Priffyrd, i awdurdodi cau’r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Hysbysiad hwn; i awdurdodi cau’r mynedfeydd preifat a ddisgrifir yn Atodlen 2; i ddarparu ar gyfer y darnau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3; i ddarparu ar gyfer y mynedfeydd preifat newydd a ddisgrifir yn Atodlen 4 ac i wella’r rhannau o briffyrd a ddisgrifir yn Atodlen 5 er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 6.

Awdurdodir cau’r briffordd er budd diogelwch defnyddwyr y priffyrd y bwriedir eu hadeiladu yn unol â’r caniatâd cynllunio a ddisgrifir yn Atodlen 6, ac i hwyluso symudiad traffig ar y priffyrd hynny. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrd (Ffordd Gyswllt Chimneys, Abergwaun, Sir Benfro) 2018 (“y Gorchymyn”) yn peidio â chael effaith os daw’r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â’r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiau o’r Gorchymyn a’r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1TP a Swyddfeydd Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig, Neuadd y Dref, Sgwâr y Farchnad, Abergwaun, Sir Benfro SA65 9HE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o’r cyfeiriad isod gan ddyfynnu’r cyfeirnod qA1314688.

Caiff unrhyw berson a dramgyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau’r Ddeddf; neu
 - b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;
- o fewn 6 wythnos i 20 Mehefin 2018, wneud cais i’r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Anstatudol/ Trafnidiaeth/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmyntion Cau/ 2018).

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (CHIMNEYS LINK, FISHGUARD, PEMBROKESHIRE) ORDER 2018

The Welsh Ministers have made an Order under section 248 of the Town and Country Planning Act 1990 (“the Act”) and Section 125 of the Highways Act, to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice; to authorise the stopping up of the private means of accesses described in Schedule 2; to provide for the lengths of new highway described in Schedule 3; to provide for the lengths of new private means of accesses described in Schedule 4 and to improve the areas of highway described in Schedule 5, to enable the development described in Schedule 6 to be carried out.

The stopping up is authorised in the interests of the safety of users of, and to facilitate the movement of traffic on, the highways proposed to be constructed under the planning permission described in Schedule 6 being carried out. The Stopping Up of Highways (Chimneys Link, Fishguard, Pembrokeshire) Order 2018 (“the Order”), will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal opening hours at the Office of Pembrokeshire County Council, County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire SA61 1TP and Fishguard and Goodwick Town Council, Town Hall, Market Square, Fishguard, Pembrokeshire SA65 9HE or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1314688.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

- a. it is not within the powers of the Act; or
- b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 20 June 2018 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Disgrifiad o'r darn o briffordd sydd i'w gau o dan y Gorchymyn hwn

Darn trionglog ei siâp o briffordd sy'n rhan o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh, Abergwaun i'r de-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Rhif 17 y Wesh, o bwynt 10 metr i'r dwyrrain o gornel fwyaf dwyreiniol Rhif 17 y Wesh hyd at bwynt 8.5 o fetrau i'r de-orllewin o gornel fwyaf gorllewinol Rhif 15 y Wesh, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 8 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 4 o fetrau, y mae cyfanswm ei arwynebedd yn 16 o fetrau sgwâr, ac y rhoddir y cyfeirnod S1 iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r mynedfeydd preifat sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan betryalog ei siâp sy'n rhan o'r fynedfa breifat bresennol i gerbydau i safle Midland Garages ychydig i'r de o'r eiddo o'r enw Rhif 17 y Wesh, ac sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh, Abergwaun i gyfeiriad y de-orllewin am bellter o 1 fetr, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 3 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod S2 iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o'r fynedfa breifat bresennol i gerbydau sy'n rhoi mynediad i'r tu cefn i'r Wesh a Heol Fawr, i'r gorllewin o'r eiddo o'r enw Rhif 15 y Wesh, ac sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh, Abergwaun, i gyfeiriad y de yn gyffredinol y mae ei hyd yn ei man hiraf yn 24 o fetrau, a'i lled yn ei fan lletaf yn 8 o fetrau, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 104 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod S3 iddi ar y plan a adneuwyd.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

Description of the length of highway to be stopped up under this Order

A triangular shaped length of highway being part of the A487 trunk road known as West Street, Fishguard located south east of the property known as No.17 West Street, from a point 10 metres east of the easternmost corner of No. 17 West Street to a point 8.5 metres south west of the westernmost corner of No. 15 West Street, with a maximum length of 8 metres, and a maximum width of 4 metres and a total area of 16 square metres, and given the reference S1 on the deposited plan.

SCHEDULE 2

Description of the private means of access to be stopped up under this Order

A rectangular shaped area being part of the existing vehicular private means of access into the Midland Garages site located just south of the property known as No.17 West Street, and extending from its junction with the A487 trunk road known as West Street, Fishguard in a south westerly direction for 1 metre, a total area of 3 square metres, and given the reference S2 on the deposited plan.

An irregular shaped area of existing private means of access providing access to the rear of West Street and High Street located west of the property known as No.15 West Street, extending from its junction with the A487 trunk road known as West Street, Fishguard, in a generally southerly direction with a maximum length of 24 metres, and having a maximum width of 8 metres and a total area of 104 square metres, and given the reference S3 on the deposited plan.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r darnau o briffordd newydd sydd i'w darparu

Prifffordd newydd at bob diben i gysylltu cefnffordd yr A487 â chefnffordd yr A40 a fydd yn ymestyn o bwynt ar Heol Fawr, 138 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Lota Park Road, sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin yn gyffredinol am 102 o fetrau i'r gorllewin o'r siôp Co-op bresennol, ac yna i gyfeiriad y dwyrain am 101 o fetrau ac yna i gyfeiriad y gogledd am 33 o fetrau i'r gogledd o safle Ysgol Gynradd Sirol Abergwaun, i ymuno â chefnffordd yr A487 wrth bwynt 64 o fetrau i'r de-ddwyrain o groesffordd Ropewalk a'r Wesh, am gyfanswm pellter o 223 o fetrau, rhwng pwyntiau A a B ac y rhoddir y cyfeirnod N1 iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan newydd o briffordd sy'n arhosfan fysiau/coetsys a fydd yn ymestyn o bwynt ar ffin ogledol y briffordd ddosbarthiadol newydd N1, 26 o fetrau i'r de-ddwyrain o gornel fwyaf deheuol Unedau 1-7 Midland Garages, gan ymestyn i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am 79 o fetrau, y bydd cyfanswm ei harwynebedd yn 906 o fetrau sgwâr, i ymuno â ffin ogledol y briffordd ddosbarthiadol newydd N1, rhwng pwyntiau C a D ac y rhoddir y cyfeirnod N2 iddi ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o briffordd sy'n llwybr troed, o'i gyffordd â'r briffordd newydd N1 am bellter o 88 o fetrau i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol, gan igamogamu i ymuno â llwybr presennol wrth bwynt 27 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gornel fwyaf deheuol Unedau 1-7 Midland Garages, rhwng pwyntiau E ac F ac y rhoddir y cyfeirnod N3 iddo ar y plan a adneuwyd.

Prifffordd newydd sy'n llwybr troed, o'i chyffordd â'r briffordd newydd N2 am bellter o 8 metr i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at bwynt 12 o fetrau i'r de-ddwyrain o gornel fwyaf deheuol Unedau 1-7 Midland Garages, i ymuno â'r fynedfa breifat newydd sy'n dwyn y cyfeirnod P1, rhwng pwyntiau G a H ac y rhoddir y cyfeirnod N4 iddi ar y plan a adneuwyd.

Prifffordd newydd sy'n llwybr troed, o'i chyffordd â'r briffordd newydd N1 am bellter o 26 o fetrau i gyfeiriad y de-orllewin, ac yna am bellter o 26 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-orllewin i ymuno â llwybr presennol wrth bwynt 48 o fetrau i'r de-orllewin o gornel fwyaf gorllewinol y Co-op, am gyfanswm pellter o 53 o fetrau rhwng pwyntiau I a J ac y rhoddir y cyfeirnod N5 iddi ar y plan a adneuwyd.

SCHEDULE 3

Description of the lengths of new highway to be provided

A new all purpose highway to link the A487 and A40 trunk roads that would extend from a point on High Street, 138 metres north east of its junction with Lota Park Road, extending in a generally north westerly direction for 102 metres to the west of the existing Co-op store, and then in an easterly direction for 101 metres and then in a northerly direction for 33 metres to the north of the Fishguard County Primary School site, to join the A487 trunk road at a point 64 metres south east of the intersection of Ropewalk and West Street , for a total distance of 223 metres, between points A and B and given the reference N1 on the deposited plan.

A new area of highway being a bus/coach lay-by that would extend from a point on the northern boundary of the new classified highway N1, 26 metres south east of the southernmost corner of Units 1-7 Midland Garages, extending in a generally north easterly direction for 79 metres and having a total area of 906 square metres to join the northern boundary of the new classified highway N1, between points C and D and given the reference N2 on the deposited plan.

A new length of highway being a footpath from its junction with new highway N1 for a distance of 88 metres in a generally northerly direction, zig zagging to join an existing path at a point 27 metres north west of the southernmost corner of Units 1-7 Midland Garages, between points E and F and given the reference N3 on the deposited plan.

A new highway being a footpath from its junction with new highway N2 for a distance of 8 metres in a north westerly direction to a point 12 metres south east of the southernmost corner of Units 1-7 Midland Garages to join new private means of access referenced P1, between points G and H and given the reference N4 on the deposited plan.

A new highway being a footpath from its junction with new highway N1 for a distance of 26 metres in a south westerly direction, and then for a distance of 26 metres in a north westerly direction to join an existing path at a point 48 metres south west of the westernmost corner of the Co-op, for a total length of 53 metres between points I and J and given the reference N5 on the deposited plan.

SCHEDULE 4

ATODLEN 4

Disgrifiad o'r darnau o fynedfeydd preifat newydd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

Darn newydd o fynedfa breifat i gerbydau i safle Midland Garages, o ffin ogledol y ffordd gyswllt newydd arfaethedig N1 a ffin ddeheuol y llwybr troed newydd N3 hyd at bwynt 21 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o gornel fwyaf dwyreiniol Unedau 1-7 Midland Garages, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 50 metr a'i led yn ei fan lletaf yn 13 o fetrau, ac y rhoddir y cyfeirnod P1 iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn newydd o fynedfa breifat i gerbydau i'r tu cefn i'r eiddo ar y Wesh a Heol Fawr, oddi ar ffin deddwyreiniol y ffordd gyswllt newydd arfaethedig, o bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-orllewin o gornel fwyaf deheuol yr eiddo o'r enw Chimneys, hyd at bwynt 10 metr i'r de-orllewin o gornel fwyaf deheuol yr eiddo o'r enw Chimneys, y mae ei hyd yn ei fan hiraf yn 25 o fetrau a'i led yn ei fan lletaf yn 15 o fetrau, ac y rhoddir y cyfeirnod P2 iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 5

Disgrifiad o'r rhannau o briffyrrd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Lota Park Road am 37 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, rhwng yr eiddo o'r enw 42 Heol Fawr a'r Ship & Anchor Inn, Heol Fawr, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 398 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod H1 iddi ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 32 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Ropewalk am bellter o 53 o fetrau i gyfeiriad y deddwyrrain, rhwng yr eiddo o'r enw 25 y Wesh a 13 y Wesh, y mae cyfanswm ei harwynebedd yn 685 o fetrau sgwâr ac y rhoddir y cyfeirnod H2 iddi ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 6

Y Datblygiad

Ffordd Gyswllt Chimneys (Cam 2), gan gynnwys adeiladu ffordd gyswllt newydd, gwelliannau i dir cyhoeddus, ynghyd â gwaith cysylltiedig arall gan gynnwys arhosfan fysiau/coetsys, addasiadau i'r siop Co-op bresennol, gwaith seilwaith dŵr wyneb a

Description of the lengths of new private means of access to be provided under this Order

A new length of vehicular private means of access into the Midland Garages site, from the northern boundary of the proposed new link road N1 and southern boundary of new footpath N3 to a point 21 metres north east of the eastern most corner of Units 1-7 Midland Garages, a length of 50 metres and a maximum width of 13 metres, and given the reference P1 on the deposited plan.

A new length of vehicular private means of access to the rear of properties on West Street and High Street, off the south eastern boundary of the proposed new link road, from a point 28 metres north west of the southern most corner of the property known as Chimneys to a point 10 metres south west of the southernmost corner of the Property known as Chimneys, a length of 25 metres and a maximum width of 15 metres, and given the reference P2 on the deposited plan.

SCHEDULE 5

Description of the areas of highway to be improved under this Order

An irregular shaped area of highway being part of the A40 trunk road known as High Street extending from a point 124 metres north east of its junction with Lota Park Road for 37 metres in a north easterly direction, between the properties known as 42 High Street and the Ship & Anchor Inn, High Street, a total area of 398 square metres and given the reference H1 on the deposited plan.

An irregular shaped area of highway being part of the A487 trunk road and known as West Street extending from a point 32 metres south east of its junction with Ropewalk for 53 metres in a south easterly direction, between the properties known as 25 West Street and 13 West Street, a total area of 685 square metres and given the reference H2 on the deposited plan.

SCHEDULE 6

The Development

The Chimneys Link (Phase 2), to include the construction of a new link road, public realm improvements, together with other associated works including a bus/coach focal point, alterations to the existing Co-op store, surface water infrastructure and the demolition of the former Fishguard County

dymchwel hen brif adeilad Ysgol Gynradd Sirol Abergwaun, ffreutur yr ysgol, tri o dai allan, Transition Bro Gwaun a'r rhan o'r hen lyfrgell sydd â tho ar oleddf sydd ynghlwm wrth dafarn y Ship & Anchor ar hen safle Ysgol Gynradd Sirol Abergwaun, ynghyd â'r tir i'r gogledd o Heol Fawr, Abergwaun, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 27 Tachwedd 2017 o dan y cyfeirnod 17/0422/PA.

Primary School main building, the school canteen, three outbuildings, Transition Bro Gwaun and the pitched roof section of the former library attached to the Ship and Anchor Public House on the site of the former Fishguard County Primary School together with the land north of High Street, Fishguard, in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 27 November 2017 under reference number 17/0422/PA.